------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 10 Rhagfyr 2014**

Amser:
**09.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Llinos Madeley**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru

## Agenda

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.30)

### 2 Papurau i'w nodi (09.30 – 09.35) (Tudalennau 1 – 6)

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau** (Tudalen 7)

### 3 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (09.35)

### 4 Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: trafod yr adroddiad drafft (09.35 – 10.20) (Tudalennau 8 – 62)

### 5 Blaenraglen waith y Pwyllgor (10.20 – 11.05) (Tudalennau 63 – 76)

### 6 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau

**penfeddwol cyfreithlon"): trafod y prif faterion (11.05 - 11.45)**
(Tudalennau 77 - 90)

## 7 Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): trafod y dull gweithredu ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 (11.45 - 12.30)

Eitem 2

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 26 Tachwedd 2014** |
| Amser: | **09.06 – 12.09** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2509**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**<br>**Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Sarah Watkins, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Clerc)**<br>**Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)**<br>**Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Amy Clifton (Ymchwilydd)** |

**Trawsgrifiad**
Gweld **trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Blaenraglen waith y Pwyllgor

1.1 Bu'r Aelodau'n trafod y flaenraglen waith, gan gytuno y byddent yn dod yn ôl at yr eitem hon ar ddyddiad arall.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3 Sesiwn graffu gyffredinol ar waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

3.1 Bu'r Comisiynydd yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.
3.2 Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn amlinellu'r pwyntiau sydd fwyaf perthnasol i'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) sydd ar ddod, sy'n deillio o'i hadolygiad o ansawdd bywyd a gofal i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

## 4 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): sesiwn dystiolaeth 7

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.
4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn nodi'r amcangyfrif o gostau i GIG Cymru o'r carchar arfaethedig yng Ngogledd Cymru.

## 5 Papurau i'w nodi

5.0a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd a 12 Tachwedd 2013.

5.1 Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd: gohebiaeth gan y Prif Weinidog
5.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

5.2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Prif Swyddog Meddygol: gwybodaeth ychwanegol gan y Prif Swyddog Meddygol
5.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Prif Swyddog Meddygol.

5.3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-16: gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid

5.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid a chytunodd i drafod y llythyr yn fanylach yn ei gyfarfod nesaf ar 10 Rhagfyr.

5.4 Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru: gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Sesiwn graffu gyffredinol ar waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: ystyried y dystiolaeth a gafwyd.

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): ystyried y dystiolaeth a gafwyd

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 20 Tachwedd 2014** |
| Amser: | **09.47 – 12.35** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2537**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Margaret Provis, Llywodraeth Cymru**<br>**Alistair Davey, Llywodraeth Cymru**<br>**Anthony Jordan, Llywodraeth Cymru**<br>**Mike Lubienski, Llywodraeth Cymru**<br>**Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Dr Sarah Watkins, Llywodraeth Cymru**<br>**Andrea Gray, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Clerc)**<br>**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)** |

**Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**
**Amy Clifton (Ymchwilydd)**

---

**Trawsgrifiad**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Blaenraglen waith y Pwyllgor

1.1 Bu'r Aelodau'n trafod y flaenraglen waith, gan gytuno y byddent yn dod yn ôl at yr eitem hon ar ddyddiad arall.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriad gan Darren Millar.

## 3 Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: sesiwn friffio ffeithiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

3.1 Atebodd y swyddogion gwestiynau gan Aelodau.
3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i nodi ei fwriad i ystyried gosod y rheoliadau drafft o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â chymhwystra.

## 4 Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog

4.1 Atebodd y Gweinidog gwestiynau gan Aelodau.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
5.1a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cynllun recriwtio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

5.2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Prif Swyddog Meddygol: gwybodaeth ychwanegol gan y Prif Swyddog Meddygol

5.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan y Prif Swyddog Meddygol ynghylch y Cynllun Gofal Sylfaenol.

5.3 Ymchwiliad i broses gwynion y GIG: gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
5.3a Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i broses gwynion y GIG.

5.4 Blaenraglen waith y Pwyllgor
5.4a Nododd y Pwyllgor raglen waith amlinellol y Pwyllgor o fis Ionawr tan fis Mawrth 2015.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.
6.2 Cynigiodd y Cadeirydd hefyd i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 1 o'r cyfarfod ar 26 Tachwedd 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(ix). Cytunwyd ar hyn.

## 7 Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/MD/5213/14

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Rhagfyr 2014

Annwyl David,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd 2014 ynglŷn â fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 20 Tachwedd 2014 i drafod gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Mewn ymateb i'ch cais am fanylion am nifer y cleifion sydd wedi cael eu hatgyfeirio o dan lwybrau iechyd meddwl amrywiol, a'r perfformiad yn erbyn yr amseroedd atgyfeirio targed ar gyfer bob llwybr, gallaf gadarnhau mai'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS) sydd â'r targed o 28 diwrnod o atgyfeiriad i asesiad (dros 71% ar hyn o bryd) ac un o 56 diwrnod o asesiad hyd at ymyriad (dros 85% ar hyn o bryd).

Ni fyddai'r atgyfeiriadau a wneir gan Feddyg Teulu i'r gwasanaeth hwn o natur frys. Fel arfer mi fyddan nhw'n nodweddiadol o bobol sy'n profi iselder ysgafn i gymhedrol. Yn dilyn asesiad gan yr LPMHSS, os gwneir penderfyniad nad yw'n bosibl cwrdd ag anghenion cleifion trwy ofal lefel sylfaenol, bydd y claf yn cael ei atgyfeirio at wasanaethau Iechyd Meddwl eilaidd.

Ni chafodd gallu Meddygon Teulu i atgyfeirio i wasanaeth iechyd meddwl eilaidd ei newid yn sgil cyflwyno'r Mesur. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd interim yng Ngorffennaf 2010 i dimau Iechyd Meddwl cymunedol sy'n parhau i fodoli. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn eglur mai'r graddfeydd amser y mae Dr Watkins wedi cyfeirio atynt sy'n berthnasol pan fo tîm iechyd meddwl cymunedol yn derbyn atgyfeiriad.

Nid yw'r graddfeydd amser hyn yn rhan o dargedau haen 1 y GIG ac felly nid yw'r perfformiad yn cael ei gasglu yn ganolog.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon